COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD GWENER, 10 IONAWR 2025 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd J Gebbie - Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Davies | M J Evans | M Jones |
| J C Spanswick | | | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | N Farr | J E Pratt | A W Ulberini-Williams |
| HM Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

D M Hughes, Steve Berry

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Dave Wright | Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp - Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Daniel Bolton | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Darparu |
| Paul Miles | Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant
Dim.

## 60. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y Pwyllgor wedi derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 04/09/2024 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Ionawr 2025 |

## 61. Adroddiad Blynyddol Bwrdd Rhianta Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr 2023 - 2024

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad yn crynhoi'r cynnydd yng ngofal a chymorth i blant Pen-y-bont ar Ogwr ledled y Fwrdeistref Sirol, yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol a chydnabod rôl rhanddeiliaid yn y cyngor ac yn allanol, ynghyd â rôl ysgolion a darparwyr eraill ar gyfer gweithio tuag at y nodau hyn. Cafodd rôl y bartneriaeth gref â CAMHS hefyd ei chrybwyll fel rhan allweddol i gyflawni'r nodau a chyflawniadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.<br><br>Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau ynghylch:<br>• Y gefnogaeth i ofalwyr carennydd.<br>• Y rhesymau dros sawl symudiad ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.<br>• Statws ariannol awdurdodau eraill/ plant sydd mewn cyfleusterau ym Mhen-y-bont ar Ogwr.<br>• Cyflogadwyedd ieuenctid ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.<br>• Hyrwyddo cyllid perthnasol i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.<br>• Nifer y plant o awdurdodau eraill sydd wedi eu rhoi ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a'r ffordd arall.<br>• Eglurhad ar y 47% o ostyngiad mewn niferoedd sawl lleoliad dros y flwyddyn ddiwethaf.<br>• Dadansoddiad o blant nad ydynt yn y system ofal, ond yn dal i fod angen cymorth, a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r achosion hynny.<br>• Diweddariad ar ymgorfforiad y Strategaeth Gostyngiad Diogel yn nifer y Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal.<br>• Presenoldeb rhai swyddogion a phartneriaid mewn cyfarfodydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol bob chwarter. |

| | |
|---|---|
| | • Cymharu nifer o blant Pen-y-bont ar Ogwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal mewn amryw o sefyllfaoedd gydag awdurdodau cymharol eraill.<br><br>Bu i Ddirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y Rheolwr Grŵp - y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ymateb i'r cwestiynau hyn, gan gytuno i barhau i wella cyflogadwyedd ieuenctid fel rhan o'r nod barhaus dan arweiniad y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd Bwyllgor y Cabinet gynnwys yr adroddiad, gan ychwanegu bod yr ymroddiad a ddangosir gan swyddogion a phartneriaid tuag at y Cyngor i gynorthwyo plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ysbrydoledig ac yn hynod bwysig i'r llwyddiant sydd wedi ei gyflawni, a chynnydd pellach i'w gyflawni yn y dyfodol. Yn ogystal, cytunwyd y byddai union niferoedd pobl ifanc Pen-y-bont ar Ogwr mewn awdurdodau/lleoliadau eraill yn ogystal â nifer y bobl ifanc o awdurdodau eraill sydd mewn lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu canfod a'u dychwelyd i Bwyllgor y Cabinet.<br><br>Cytunwyd ymhellach i ddod â gwybodaeth i'r Pwyllgor yn y dyfodol ynghylch y Rhaglen Ysbrydoli a mentrau eraill sy'n cefnogi plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ynghyd â faint sy'n cymryd rhan, i gasglu gwybodaeth bellach ar y gostyngiad mewn niferoedd sawl lleoliad, ac i ofyn cwestiynau i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar eu metrigau perfformiad yn yr ardal hon, yn ystod eu hymweliad i'r Cyngor yn y dyfodol agos. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Ionawr 2025 |

**62. Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru (Agc) ar Wasanaethau Rheoledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn Gofal Cymdeithasol Plant (CBSPO)**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Darparu adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a'r darganfyddiadau o archwiliadau mewn amgylcheddau gofal ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys Sunny Bank, Tŷ Harwood a Golygfa'r Dolydd, a darparu sawl argymhelliad ar gyfer cynnydd yn y dyfodol, sydd bellach wedi derbyn sylw, gyda chynlluniau gweithredu ar gyfer pob lleoliad.<br><br>Gofynnodd gynghorwyr gwestiynau ynghylch:<br>• Faint o le sydd yn y lleoliadau. |

| | |
|---|---|
| | • Llety ar gyfer plant sydd tu allan i'r sir mewn lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr.<br>• Gwelliannau i gynlluniau gofal.<br>• Gwelliannau amgylcheddol gofynnol.<br>• Cadarnhad posib ar leoliadau.<br>• Y rhesymau dros beidio dilyn gweithdrefnau a'r goblygiadau sydd ynghlwm â'r penderfyniadau hynny.<br>• Y system economi daleb sy'n cael ei chrybwyll yn yr adroddiad.<br>• Rhybudd cyn cynnal archwiliadau ar gyfleusterau.<br>• Statws gwiriadau addasrwydd staff ymysg staff parhaol a staff asiantaeth.<br>• Hyder swyddogion i roi'r argymelliadau ar waith.<br><br>Cafodd yr ymholiadau hyn eu hateb gan y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Darparu, y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd Bwyllgor y Cabinet ganlyniadau'r archwiliadau o fewn yr adroddiad, a diolch i Arolygiaeth Gofal Cymru am eu harchwiliadau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Ionawr 2025 |

**63. Cynllun Cynaliadwyedd 3 Blynedd i Wella Canlyniadau ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr - Adroddiad Cynnydd Canol Blwyddyn (2) - 2024/25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd adroddiad yn ystyried cynnydd y gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn erbyn cerrig milltir sydd wedi eu hadnabod ar gyfer gwelliannau yn y cynllun cynaliadwyedd ledled Pen-y-bont ar Ogwr, yn dilyn sawl adroddiad annibynnol.<br><br>Gofynnodd gynghorwyr gwestiynau ynghylch:<br><br>• Y rhesymau dros ostyngiad mewn ymweliadau at deuluoedd.<br>• Y bylchau sydd wedi eu canfod yn y wybodaeth yn yr adroddiad.<br>• Nifer presennol o staff dros dro/asiantaeth yn yr adran. |

| | |
|---|---|
| | • Yr oedi wrth gwblhau'r arolwg staff.<br>• Y rhesymeg wrth wraidd y gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion cam-driniaeth.<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan Ddirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd Bwyllgor y Cabinet yr adroddiad, gan gydnabod y cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn yr argymelliadau i wella lefelau gwasanaeth, a llongyfarch y staff am eu gwaith a'u hymroddiad tuag at y nodau hynny. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Ionawr 2025 |

## 64. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Dim. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 10 Ionawr 2025 |

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30.